# Cyfarwyddiadau desg i Benaethiaid gael mynediad at ddata gwaddol yr arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu

**Cyflwyniad**

Bydd y ddogfen hon yn amlinellu’r broses y mae’n rhaid i benaethiaid ei dilyn i gael mynediad at y data gwaddol ar gyfer yr arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu. Data ar gyfer blwyddyn academaidd 2019-2020 yw’r unig data sydd ar gael. Os wnaethoch chi gwblhau'r arolwg cyn mis Medi 2019 (fel rhan o'r cynllun peilot gydag OECD) bydd angen i chi ddefnyddio'r daenlen Excel a anfonwyd gan Lywodraeth Cymru i gymharu eich canlyniadau).

Bydd yn esbonio sut i gael mynediad at y data gwaddol o fewn Hwb a sut i wneud cymariaethau rhwng data’r flwyddyn hon a data’r llynedd.


Yn dilyn newidiadau diweddar, mae tri math o Bennaeth yn gallu cael mynediad diofyn at adroddiadau’r arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu. Bydd y mynediad hwn yn cael ei roi’n ddiofyn i’r canlynol:

- Penaethiaid
- Penaethiaid Dros Dro
- Penaethiaid Gweithredol


Os ydych chi yn un o’r categorïau hyn ond heb fynediad at yr adroddiadau, cysylltwch â’r tîm arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu ar SLO@llyw.cymru


**Sut i gael mynediad at y data gwaddol**

1. Mewngofnodwch i Hwb a chlicio ar y cymhwysiad Rhestrau Chwarae.
2. Cliciwch ar y tab “Wedi’i rannu gyda mi”, er mwyn cael mynediad at yr adroddiadau ar gyfer yr arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu.





3. Cliciwch ar “Arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy’n Dysgu ” ac fe welwch haen uchaf yr adroddiadau. Bydd hyn yn cynnwys y defnyddwyr, cyflawniadau, sgoriau cyfartalog a golwg ar yr holl ddata ar gyfer yr arolwg presennol a data gwaddol yr arolwg (blwyddyn academaidd 2019-2020). Yna, gallwch ddefnyddio’r hidlyddion lefel uchaf i wneud eich ffordd i lawr lefelau amrywiol yr arolwg. Er enghraifft, cliciwch ar “Dewis gweithgaredd” > “Dewis adran” i gael trosolwg o’r data ar draws yr arolwg.







4. Er mwyn cael mynediad at y data gwaddol, bydd rhaid i chi ddefnyddio'r set hidlo. Yn y gwymplen "Wedi'i rannu gyda mi", fe sylwch ar ddwy ddolen i'w rhannu. Y cyntaf, BA/AY20-21 a'r ail BA/AY19-20. Mae BA/AY19-20 yn cynnwys y data ar gyfer y flwyddyn academaidd flaenorol ac mae BA/AY20-21 yn cynnwys data ar gyfer yr arolwg presennol, sy'n fyw ar hyn o bryd. Dewiswch BA/AY19-20 a bydd hyn yn dangos yr adroddiadau ar gyfer blwyddyn academaidd 19/20 yn unig. Yna, gallwch weithio'ch ffordd i lawr i'r camau perthnasol o'r arolwg i edrych ar y data at eich diben chi.




5. Er mwyn cymharu canlyniadau’r llynedd a chanlyniadau’r flwyddyn bresennol, byddai’n rhaid ychwanegu set hidlo. I wneud hyn, rhaid clicio “Ychwanegu set hidlo” o dan set hidlo 1.




6. Ar ôl ychwanegu set hidlo newydd, dewiswch un set hidlo i gael dolen BA/AY20-21 yn y gwymplen “Wedi’i rannu fel” a’r llall i gael dolen BA/AY19-20 (data gwaddol). Yna, byddwch yn gallu cymharu gwerthoedd o’r llynedd a’r flwyddyn bresennol. O’r enghraifft isod, fe welwch bod y gyfres gyfredol o ddata yn las a’r flwyddyn flaenorol yn goch.



Ym mis Medi 2021, bydd y data o 2020-2021 yn parhau i fod ar gael a bydd dolen newydd i'w rhannu ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd yn cael ei lansio. Yna bydd cyfle i gymharu canlyniadau rhwng y tair blwyddyn academaidd. Sylwch y gallwch ddefnyddio uchafswm o dair set hidlo ar yr un pryd.

